

At: Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg

Trwy e-bost yn unig

06 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog,

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i'ch annog i gyhoeddi'n ddiodes eich disgwyliadau o ran darpariaeth ysgolion yn nhymor yr hydref, fel bod modd i arweinwyr ysgol gynllunio'u darpariaeth.

Dylai'r disgwyliadau hynny nodi sut mae cynnig darpariaeth ddiogel a chroesawgar mewn ysgolion a cholegau, heb osgoi risgiau'n ormodol, a thrwy wneud hynny sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion llesiant a chymdeithasu plant a'u diogelwch corfforol. Dylid nodi hefyd y disgwyliadau ar gyfer cefnogi plant sy'n debygol o fod wedi profi anfantaais addysgol oherwydd nad ydynt wedi gallu ymgysylltu'n llawn â dysgu yn ystod y misoedd diwethaf, a hynny yn sgîl ffactorau sy'n amrywio o anghenion dysgu ychwanegol i ddiffyg adnoddau ac amser rhieni neu hyder addysgol gartref. Ar ôl un wythnos yn unig o'r cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' mae adroddiadau'n dod i'r amlwg bod plant o gefndir mwy difreintiedig yn ymgysylltu llai â phresenoldeb yn yr ysgol nag eraill.

Er mai fy ngobaith didwyll yw y byddwn ni'n gallu *mwyaflu* presenoldeb corfforol plant ar safleoedd ysgolion a cholegau ym mis Medi, dylai eich disgwyliadau ar gyfer ysgolion a cholegau gydnabod hefyd y posibilrwydd gwirioneddol y gallai rhai plant fethu dod i'r ysgol neu'r coleg o dan yr amgylchiadau canlynol:

- o oherwydd eu bod nhw neu eu haelwyd yn gwarchod neu'n hunan-ynysu
- o oherwydd bod gofyniad ar ysgolion o hyd i gynnig dysgu cyfunol ar ddechrau'r tymor
- o oherwydd bod cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol wedi gorfod cael eu gweithredu

Rhaid dangos yn eglur sut bydd *pob* plentyn a pherson ifanc yn derbyn eu hawl lawn i gael addysg, a charwn ofyn i chi nodi o leiaf isafswm disgwyliadau ynghylch sut cyflawnir hyn trwy ymgysylltu gweithredol ar-lein ac all-lein, gan gynnwys addysgu cydamserol ac anghydamserol trwy fideo.

Fel yr ydych chi a'ch swyddogion yn boenus o ymwybodol, mae cludiant i'r ysgol yn dal yn fater heriol iawn, a hyderaf fod cynlluniau ar waith i nodi disgwyliadau pellach mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon er mwyn i



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru  
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**  
**childrenscommissioner.wales**

deuluoedd, awdurdodau lleol, darparwyr trafnidiaeth, ysgolion a cholegau fedru cynllunio ar gyfer mis Medi.

Efallai bydd gennych chi ddiddordeb mewn gwybod fy mod hefyd wedi ysgrifennu at undebau athrawon a staff ysgol heddiw, yn eu hannog i weithio'n adeiladol gyda'r llywodraeth a chaniatáu i'w haelodau gefnogi gallu plant i fanteisio gymaint â phosibl ar eu hawliau addysg.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Brif Weinidog Cymru, yn holi ynghylch y dehongliad gwyddonol o risgiau'r feirws yng Nghymru sydd hyd yma wedi atal cyhoeddiad ynghylch dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser yn yr hydref, mewn cyferbyniad â 3 gwlad arall y Deyrnas Unedig.

Rwyf wedi croesawu'n gynnes y cyfle i blant fedru dewis mynd i'r ysgol y mis yma, ac rwy'n ymwybodol bod hyn i'w weld yn brofiad cadarnhaol yn gyffredinol i bawb dan sylw, er gwaethaf natur gyfyngedig y ddarpariaeth. Serch hynny, mae cwestiynau'n dal heb eu hateb ynghylch trefniadau'r tymor newydd, ac mae eich arweiniad yr wythnos hon yn hanfodol i sicrhau disgwyliaid cwbl eglur ynghylch sut bydd hawliau addysgol plant yn cael eu cyflawni.

Rwy'n cydymdeimlo'n fawr â'r newid beunyddiol mewn amgylchiadau y mae'r genedl wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig, a'r effaith mae hynny wedi'i chael ar eich swyddogion a'n gwasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, byddwn i wedi disgwyl i gynllunio sefyllfaoedd ar gyfer ailagor ysgolion fod yn derbyn sylw prysur ers iddynt gau ym mis Mawrth, a gofynnaf yn awr i chi gyhoeddi ar fyrder eich disgwyliaid o ran y ddarpariaeth addysg i blant ym mis Medi.

Yn gywir,



Sally

Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru  
Children's Commissioner for Wales